**Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri**
**Ffestiniog & Welsh Highland Railways**

Gorsaf yr Harbwr / Harbour Station, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NF
01766 516000
enquiries@ffwhr.com

# Disgrifiad Swydd

## 1. Manylion y Swydd

**Teitl y Swydd:** Swyddog Marchnata Digidol
**Rheolwr:** Rheolwr Marchnata
**Lleoliad:** Gorsaf Harbwr, Porthmadog
**Oriau Gweithio:** 40 awr yr wythnos i'w weithio yn ôl y gofyn
**Nodiadau:** Efallai y bydd angen gweithio ar benwythnosau a gyda'r nos ar gyfer y swydd hon.
Efallai y bydd y swydd hon yn addas ar gyfer gweithio hybrid, fodd bynnag mae angen presenoldeb ar y safle felly nid yw'r swydd yn addas ar gyfer gweithio o bell yn llwyr.

## 2. Pwrpas y Swydd:

Mae Deiliad y Swydd yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli presenoldeb digidol y rheilffordd, gan gynnwys cynnwys gwefan, sianeli cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd ar-lein. Bydd Deiliad y Swydd yn canolbwyntio ar hyrwyddo a gyrru gwerthiant tocynnau rheilffordd tra hefyd yn cefnogi mentrau marchnata ar draws adrannau gwahanol gan gynnwys Profiad Ymwelwyr, Gwirfoddoli a Lletygarwch a Manwerthu.

## 3. Prif Atebolrwydd:

(i) Rheoli sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cwmni (Instagram, Facebook, X, TikTok ac eraill), gan ddatblygu cynnwys deniadol sy'n hyrwyddo ein gwasanaethau, digwyddiadau a chynigion tymhorol, gan sicrhau bod y cynnwys yn cyd-fynd â llais y brand ac amcanion yr ymgyrch;

(ii) Gweithio ochr yn ochr â'r Rheolwr Marchnata i ddatblygu, gweithredu a monitro ymgyrchoedd hysbysebu cyfryngau cymdeithasol â thâl i ysgogi ymwybyddiaeth, ymgysylltiad ac archebion ar draws ein hystod o brofiadau teithio, gan deilwra negeseuon i apelio at gwsmeriaid penodol ar gyfer pob cynnyrch;

Gorsaf yr Harbwr / Harbour Station, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NF
01766 516000
enquiries@ffwhr.com

(iii) Gweithio ochr yn ochr â'r Pennaeth Gwirfoddoli ac ein Rheolwr Cyfryngau Symudol i greu cynnwys Digidol deniadol sy'n hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli ac yn annog gwirfoddolwyr newydd i ymuno â'r rheilffordd;

(iv) Cefnogi y Rheolwr Lletygarwch a Gwerthiant i greu a hyrwyddo cynnwys sy'n tynnu sylw at allfeydd arlwyo a chynigion siopau manwerthu'r rheilffordd;

(v) Dadansoddi a monitro perfformiad ymgyrchoedd, gan ddefnyddio data i awgrymu gwelliannau, optimeiddio gwariant a chynyddu ymgysylltiad a throsiadau;

(vi) Cysylltu â'r Rheolwr Marchnata i gynllunio ac optimeiddio ymgyrchoedd Google Ads a Bing PPC, gan sicrhau'r Elw ar Fuddsoddiad mwyaf a'i fod yn cyd-fynd â nodau marchnata;

(vii) Ymateb i sylwadau a negeseuon cwsmeriaid ar gyfryngau cymdeithasol yn unol â thôn y brand a safonau gwasanaeth;

(viii) Ymchwilio thueddiadau marchnata digidol, datblygiadau cyfryngau cymdeithasol a gweithgaredd cystadleuwyr i gynorthwyo gyda gwelliannau a chyfleoedd;

(ix) Cynorthwyo gyda chreu hysbysebion digidol, graffeg cyfryngau cymdeithasol, a chynnwys hyrwyddo yn ôl yr angen;

(x) Cefnogi'r gwaith o gasglu a threfnu asedau ffotograffiaeth a fideo, gan gydlynu â'n ffotograffwyr a'n fideograffwyr mewnol ac allanol lle bo angen;

(xi) Cefnogi'r tîm marchnata mewn digwyddiadau arbennig, ymweliadau â'r wasg a gweithgareddau lansio i gynhyrchu cynnwys digidol a chyfleoedd i roi sylw byw;

(xii) Gwaith arall yn ôl yr angen.

## 4. Cynnwys y Swydd

Bydd Deiliad y Swydd yn adrodd i'r Rheolwr Marchnata ac yn rhan o'r Adran Farchnata ehangach. Bydd Deiliad y Swydd yn gweithio'n agos gydag aelodau eraill yr Adran Farchnata, a'r tîm Masnachol ehangach.

## 5. Profiad, Gwybodaeth, Cymhwyster a Hyfforddiant:

(i) Profiad o reoli sianeli Cyfryngau Cymdeithasol (Instagram, Facebook, X, TikTok, YouTube ac/neu tebyg) ac ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol â thâl;

Gorsaf yr Harbwr / Harbour Station, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NF
01766 516000
enquiries@ffwhr.com

(ii) Yn gwbl gymwys gyda TG gan gynnwys dealltwriaeth o Adobe Creative Cloud; Photoshop, Illustrator a/neu InDesign;
(iii) Creadigol, rhagweithiol ac yn gallu dod â syniadau a safbwyntiau ffres ar gyfer cynnwys cymdeithasol ac ymgyrchoedd hyrwyddo;
(iv) Profiad o greu cynnwys gan gynnwys ysgrifennu capsiynau, postiadau a chopiau byr; ffotograffiaeth a recordio fideos byr;
(v) Sgiliau golygu fideo sylfaenol gan ddefnyddio Premiere Pro, Rush neu debyg;
(vi) Dealltwriaeth sylfaenol o algorithmau platfform a dadansoddeg ddigidol;
(vii) Yn gallu dehongli metrigau a chynhyrchu adroddiadau perfformiad gydag argymhellion;
(viii) Galluoedd trefnu ac amldasgio rhagorol, gyda sylw craff i fanylion;
(i) Rhaid bod yn hyblyg ac yn gallu gweithio ar eich liwt eich hun gyda sgiliau rheoli amser da;
(ii) Gyfforddus yn gweithio mewn amgylchedd cyflym, yn enwedig o amgylch digwyddiadau a thymhorau twristiaeth prysur;
(iii) Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar;
(iv) Mae angen diddordeb mewn treftadaeth, rheilffyrdd, twristiaeth, ac ymgysylltu cymunedol;
(v) Mae profiad o weithio o fewn y sectorau twristiaeth, treftadaeth, hamdden, atyniadau neu letygarwch yn ddymunol.
(vi) Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn fantais amlwg.